Canllaw i Athrawon

Dylai'r Canllaw i Athrawon roi gwybodaeth ar sut i ail ddefnyddio tystiolaeth **Lefel 2 OCR Nationals** ar gyfer **Sgiliau Hanfodol Cymru Lefel 2.**

Sgiliau Hanfodol Cymru - Lefel 2

TASG GŴYL GERDDORIAETH – Canllaw ar gyfer mapio gwaith Uned 1 OCR Nationals yn erbyn gofynion Lefel 2 SHC.

TASG 1	TASG 2
Disgrifiad o'r Dasg Creu cyflwyniad i dîm rheoli'r ŵyl gerddoriaeth a fydd yn cyfleu – manylion yr ŵyl, math o ddeunyddiau cyhoeddusrwydd sy'n cael eu datblygu, incwm a gwariant a ragwelir.	**Disgrifiad o'r Dasg** Datblygu rhaglen/pamffled am yr ŵyl ar gyfer y cyhoedd a masnachwyr yr ŵyl. Hefyd llythyr wedi'i bostgyfuno at fasnachwyr yn cadarnhau presenoldeb, dyddiad ac amser cyrraedd, lleoliad y plot a chost.
Tystiolaeth ofynnol gan OCR **AO5** – Taenlen (Teilyngdod) **AO3** – Cyflwyniad Busnes (Teilyngdod) **AO2b** – E-bost (Anrhydedd) *Cyflwynwch y Llyfrau Gwaith perthnasol i'r uchod*	**Tystiolaeth ofynnol gan OCR** **AO2a** – Ymchwilio ar y We (Anrhydedd) **AO4(b)** – Llythyr wedi'i bostgyfuno (Anrhydedd) **AO4(d)** – Dogfen fwy nag un dudalen (Anrhydedd) **AO6** – Defnyddio Cronfa Ddata fusnes (Anrhydedd) *Cyflwynwch y Llyfrau Gwaith perthnasol i'r uchod*
Tystiolaeth SHC Ychwanegol sy'n ofynnol **2.1.1** Disgrifio sut y byddwch yn mynd ati i gyflawni gweithgaredd sy'n golygu defnyddio TGCh. **2.1.2** Defnyddio TGCh yn annibynnol i gyflawni'r dasg yn effeithiol. **2.1.3** Dilyn arferion gweithio saff, iach a diogel bob amser. **2.3.3** Cyflwyno gwybodaeth wedi'i chyfuno, gan ddefnyddio fformatau a chynlluniau cyson sy'n briodol i'ch diben a'ch cynulleidfa, gan ddefnyddio TGCh, ac adolygu eich gwaith.	**Tystiolaeth SHC Ychwanegol sy'n ofynnol** **2.1.1** Disgrifio sut y byddwch yn mynd ati i gyflawni gweithgaredd sy'n golygu defnyddio TGCh. **2.1.2** Defnyddio TGCh yn annibynnol i gyflawni'r dasg yn effeithiol. **2.1.3** Dilyn arferion gweithio saff, iach a diogel bob amser. **2.3.3** Cyflwyno gwybodaeth wedi'i chyfuno, gan ddefnyddio fformatau a chynlluniau cyson sy'n briodol i'ch diben a'ch cynulleidfa, gan ddefnyddio TGCh, ac adolygu eich gwaith.

CANLLAW I ATHRAWON AR YR HOLL DASGAU

“Gŵyl Gerddoriaeth Gymreig”

Briff

Rydych chi newydd gael eich penodi yn rheolwr prosiect gan dîm rheoli cwmni cynhyrchu bach sy’n trefnu gŵyl gerddoriaeth yng Ngogledd Cymru. Mae’r tîm eisiau i chi eu helpu nhw i benderfynu ar ba fath o ddelwedd y dylid ei defnyddio i farchnata’r ŵyl, a hefyd pa fathau o gerddoriaeth fyw a fyddai’n apelio at y gynulleidfa darged, sef pobl ifanc.

Gofynnwyd i chi ymchwilio i:

- Wahanol wyliau cerddoriaeth ym Mhrydain gan gynnwys:
    - sut maent yn hyrwyddo eu busnes
    - y math o gerddoriaeth/bandiau a drefnir
    - mathau o leoliadau, prisiau ac unrhyw beth arall maent yn ei gynnig
    - gwasanaethau lleol – e.e. llety, siopau, bariau/bwytai, gorsafoedd petrol gan gynnwys sut maent yn cyflwyno’r wybodaeth a’r cyfeiriadau.
- Gwahanol syniadau ar gyfer creu logo i roi delwedd unigryw i’r ŵyl.

Bydd gofyn i chi ddylunio deunyddiau cyhoeddusrwydd e.e. tocynnau, llythyrau, taflenni a phamffledi i gyd-fynd â delwedd gyffredinol yr ŵyl. Bydd angen i chi greu cyflwyniad i roi eich syniadau gerbron y tîm rheoli. Mae’r tîm hefyd yn gofyn i chi greu taenlen er mwyn iddynt allu cyfrifo cost cynnal yr ŵyl a gweld faint y bydd rhaid iddynt ei godi ar bobl wrth y giât er mwyn gwneud elw. Bydd rhaid i chi ddiweddaru a defnyddio cronfa ddata i ddod o hyd i wybodaeth neilltuol yn ymwneud â’r masnachwyr a fydd hefyd ar y safle.

Mae’n bwysig i chi darllen yr aseiniad i gyd cyn mynd ati i ddechrau ar y gwaith, er mwyn bod yn gyfarwydd â gofynion pob tasg.

TASG 1 (AO2a): Ymchwilio ar y We

Canllaw i Fyfyrwyr ar gyfer Tasg 1:

- Bydd angen i'r disgyblion chwilio ar y we i gasglu gwybodaeth i'w gwaith fel bod dogfennau/cyflwyniadau a grëir yn Nhasgau 3 a 5 yn addas i'r pwrpas ac yn addas i'r gynulleidfa.
- Gallant:
    - edrych ar wefannau gwyliau eraill ar gyfer syniadau am arddull cwmni, logos, yr wybodaeth a gyflwynir i gynulleidfaoedd (awgrym: Chwilio ar Google am ddelweddau o 'Festival flyer')
    - dod o hyd i wybodaeth neilltuol am fandiau allai fod yn perfformio
    - dod o hyd i wybodaeth am wasanaethau lleol a llefydd i aros
    - chwilio am ddelweddau penodol
    - chwilio am fapiau a'u haddasu i'w cynnwys mewn cyhoeddiadau.
- Rhaid i'r disgyblion ddefnyddio meini prawf chwilio effeithiol (geiriau allweddol) i ddod o hyd i wybodaeth addas.
- Dylai'r disgyblion ddefnyddio meini prawf chwilio uwch yn effeithiol (tudalennau chwilio uwch am wefannau a delweddau, gweithredyddion rhesymegol, nod-chwilwyr) i ddod o hyd i wybodaeth addas.
- Wrth ddod ar draws gwefannau addas, rhaid i'r disgyblion gadw cofnod o gyfeiriadau'r holl wefannau, perthnasedd yr wybodaeth a gafwyd, URL ac ati. Dylai'r disgyblion gofnodi'r wybodaeth hon yn y log.
- Cedwir cyfeiriadau defnyddiol fel ffefrynnau/dalen-nodau a'u trefnu'n briodol mewn ffolderi.
- Dylai disgyblion egluro materion hawlfraint a rhoi sylwadau ar ddilysrwydd a dibynadwyedd yr wybodaeth a ddefnyddir (gwefannau dibynadwy e.e. .gov, BBC; a yw'r wybodaeth yn ddiweddar? Pwy yw'r awdur?). Gweler dogfen 'AO2a_Guidance' am fwy o wybodaeth.

Gofynion Tystiolaeth OCR

Mae Amcanion Asesu 2 yn gofyn am dystiolaeth o ddefnyddio'r We Fyd Eang (WWW) i ddod o hyd i wybodaeth neilltuol. Rhaid i'r ymgeiswyr gyfeirio at y gwefannau a ddefnyddiant fel ffynonellau gwybodaeth. Ar gyfer graddau uwch, rhaid iddynt hefyd ystyried dilysrwydd yr wybodaeth a gafwyd. Mae saethiadau sgrin yn dangos y meini prawf a roddwyd mewn peiriannau chwilio, gyda thystiolaeth o rai o'r tudalennau y cafwyd hyd iddynt, yn gallu bod yn dystiolaeth o chwilio'r We Fyd Eang. Rhagwelir y bydd tystiolaeth o ddefnyddio testun a graffeg o'r We i'w gweld yng ngwaith ymgeiswyr ar gyfer amcanion asesu eraill megis Amcan Asesu 3 ac Amcan Asesu 4. Byddai'n arfer dda i'r ymgeiswyr gydnabod eu ffynonellau yn y dogfennau/cyflwyniad a grëir ar gyfer AO4 ac/neu AO3.

Sgiliau Hanfodol Cymru - Lefel 2:

AO2a – Rhaid i dystiolaeth o'r dasg hon fod ar lefel **Anrhydedd** i ateb gofynion SHC ar L2.

✶ **Ar gyfer SHC,** rhaid i waith ymchwil disgyblion gynnwys **ffynonellau TGCh a ffynonellau nad ydynt yn seiliedig ar TGCH** e.e. posteri, tocynnau a phamffledi parod.

Gallai deunyddiau a grëwyd i'r dasg uchod hefyd ddarparu tystiolaeth i gefnogi:

TGCH2.1.1 - Disgrifio sut y byddwch yn mynd ati i wneud gweithgaredd sy'n gofyn am ddefnyddio TGCh. (Llyfr Gwaith - *Disgrifiwch eich tasg yn fyr*)

TGCH2.1.2 - Defnyddio TGCh yn annibynnol i gyflawni'r dasg yn effeithiol. (Llyfr Gwaith – *saethiadau sgrin wedi'u hanodi*)

TGCH 2.2.1 – Canfod, dethol a defnyddio gwahanol ffynonellau sy'n cynnwys gwybodaeth briodol sy'n seiliedig ar TGCh ac nad yw'n seiliedig ar TGCh. (Llyfr Gwaith - *sut y bu i'r ymgeisydd ganfod, dethol a defnyddio ffynonellau, ynghyd ag eglurhad o'r rheswm yr oedd y ffynonellau a ddetholwyd yn briodol i'r dasg.)*

TGCH 2.2.2 - Chwilio am, dethol a chael gwybodaeth berthnasol sy'n seiliedig ar TGCh a gwybodaeth nad yw'n seiliedig ar TGCh. (Llyfr Gwaith – *chwilio ar y rhyngrwyd)*

TASG 2 (AO6): Gweithio gyda'r Gronfa Ddata 'Masnachwyr'

Canllaw i Athrawon gyfer Tasg 2:

- Bydd angen i'r disgyblion lawr lwytho'r gronfa ddata 'Masnachwyr', sydd ar gael ar fformat Access, Excel a CSV i'w mewnforio i becyn cronfa ddata arall.
- Byddai'n syniad da rŵan atgoffa'r disgyblion o strwythur y gronfa ddata a gofalu eu bod nhw'n deall yn iawn:
    - Meysydd
    - Math o ddata
    - Meysydd allweddol
    - Ymholiadau – syml a chymhleth
    - Trefnu
    - Adroddiadau
    - Golygu data mewn cronfa ddata
- Er bod rhai sefyllfaoedd wedi'u gosod i'r disgyblion eu cwblhau, efallai y byddwch chi'n dymuno gwneud gweithgaredd grŵp i adnabod sefyllfaoedd posibl a gwybodaeth y gallai bod ei hangen ar y tîm rheoli o'r gronfa ddata.
- Gellid gwneud gweithgaredd trafod syniadau cyn lawr lwytho'r gronfa ddata i weld pa feysydd y byddai eu hangen yn y gronfa ddata. Gellir wedyn cymharu'r rhain â'r meysydd a ddefnyddir yn y gronfa ddata 'Masnachwyr'.

Gofynion Tystiolaeth OCR

Mae Amcan Asesu 6 yn gofyn i ymgeiswyr **ddefnyddio** cronfa ddata fusnes realistig. Ni ddylai'r ymgeiswyr ddefnyddio peiriannau chwilio i ddangos tystiolaeth o'r amcan asesu hwn. Nid yw'r uned hon yn gofyn am greu cronfa ddata. Dylai canolfannau ddarparu cronfa ddata i'w hymgeiswyr. Dylai'r gronfa gynnwys digon o gofnodion fel bod chwilio a threfnu yn dasgau realistig a buddiol.

Dylai'r ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o lunio ymholiadau a'u canlyniadau, a'r adroddiad ar gyfer pwrpasau penodol, naill ai mewn print neu drwy ddarparu'r ffeil electronig. Gall yr ymgeiswyr neu'r ganolfan nodi'r pwrpasau ar ffurf cyfres o dasgau. Ond, ni ddylai tasgau nodi'r union feini prawf i'r ymgeiswyr eu defnyddio. Er enghraifft, byddai'n briodol i dasg nodi bod angen rhestr o'r holl gwsmeriaid sy'n byw yn Leeds ar y defnyddiwr, yn nhrefn yr wyddor yn ôl enw olaf. Nid yw'n dderbyniol i dasg nodi bod rhaid creu ymholiad ble Tref=Leeds, wedi'i drefnu yn ôl enw olaf mewn trefn esgynnol. Gall chwiliadau sy'n defnyddio mwy nag un maen prawf ddefnyddio gweithrediadau Boole (AC ac/neu NEU) neu gallant gyflawni'r effeithiau hyn drwy ddefnyddio opsiynau yn y meddalwedd. Rhaid i ymholiad gynnwys trefnu – gallai hwn fod yr un ymholiad sy'n cynnwys y meini prawf chwilio, neu gallai fod yn ymholiad arall.

Ar gyfer Anrhydedd, gellir cynhyrchu'r ddau fath o adroddiad sy'n ofynnol o'r un ymholiad, neu o ddau ymholiad gwahanol – yr hyn sy'n bwysig yw bod tystiolaeth o ddau fath o adroddiad – a bod pob adroddiad yn dangos y data yn effeithiol. Er enghraifft, gellir defnyddio ymholiad i restru'r holl gwsmeriaid sy'n byw yn Leeds i gynhyrchu labeli cyfeiriad a rhestr o gwsmeriaid yn nhrefn yr wyddor.

Sgiliau Hanfodol Cymru - Lefel 2:

AO6 – Rhaid i dystiolaeth o'r dasg hon fod ar lefel **Anrhydedd** er mwyn ateb gofynion SHC ar L2.

Gallai deunyddiau a grëwyd i'r dasg uchod hefyd ddarparu tystiolaeth i gefnogi:

TGCH2.1.1 Disgrifio sut y byddwch yn mynd ati i gyflawni gweithgaredd sy'n golygu defnyddio TGCh. (Llyfr Gwaith - *Disgrifiwch eich tasg yn fyr*)

TGCH2.1.2 - Defnyddio TGCh yn annibynnol i gyflawni'r dasg yn effeithiol. (Llyfr Gwaith – *saethiadau sgrin wedi'u hanodi*)

TGCH 2.2.1 - Canfod, dethol a defnyddio gwahanol ffynonellau sy'n cynnwys gwybodaeth briodol sy'n **seiliedig ar TGCh** ac **nad yw'n seiliedig ar TGCh**. (Llyfr Gwaith - *sut y bu i'r ymgeisydd ganfod, dethol a defnyddio ffynonellau, ynghyd ag eglurhad o'r rheswm yr oedd y ffynonellau a ddetholwyd yn briodol i'r dasg*.)
TGCH 2.2.2 - Chwilio am, dethol a chael gwybodaeth berthnasol sy'n seiliedig ar TGCh a gwybodaeth nad yw'n seiliedig ar TGCh. (Llyfr Gwaith – *chwiliadau syml a chymhleth*)
TGCH 2.3.1 – Mewnbynnu, trefnu, datblygu, fformatio a chyfuno gwybodaeth sy'n seiliedig ar TGCh ac nad yw'n seiliedig ar TGCh i weddu i'r cynnwys a'ch diben, ar ffurf: a) testun, b) tablau, c) delweddau, ch) rhifau, d) **cofnodion** (Llyfr Gwaith – *golygu'r gronfa ddata, datblygu ac enwi ymholiadau ac adroddiadau)*
TGCH 2.3.2 – Cyflwyno gwybodaeth wedi'i chyfuno, gan ddefnyddio fformatau a chynlluniau cyson sy'n briodol i'ch diben a'ch cynulleidfa, gan ddefnyddio TGCh, ac adolygu eich gwaith. (Llyfr Gwaith – *cynhyrchu adroddiadau sy'n briodol i'r diben*).

TASG 3 (AO4): Datblygu Cyhoeddiadau Allweddol

Canllaw i Athrawon ar gyfer Tasg 3:

- Bydd angen i'r myfyrwyr ddylunio a chreu o leiaf 3 dogfen, ond argymhellir eu bod nhw'n creu'r 4 ddogfen ganlynol i sicrhau eu bod nhw'n gwneud digon i gyrraedd lefel Anrhydedd a rhoi cyfle iddynt ddangos ystod eang o sgiliau:
    - Tocyn i'r ŵyl
    - Llythyr – wedi'i bostgyfuno o'r gronfa ddata ar gyfer lefel anrhydedd
    - Poster
    - Rhaglen/Pamffled yr ŵyl – dogfen fwy nag un tudalen ar gyfer lefel Anrhydedd
- Dylid cynnwys graffeg o ystod o ffynonellau a dylent fod yn briodol i bwrpas a chynulleidfa'r cyhoeddiad
- Dylai pob dogfen fod yn addas i'w hargraffu
- Rhaid dangos tystiolaeth o ddefnyddio gwirydd gramadeg a sillafu
- Disgwylir cysondeb cynyddol mewn 'arddull cwmni' ym mhob dogfen – gofyniad ar gyfer Teilyngdod ac Anrhydedd.
- Gall y disgyblion ddylunio a chreu eu logo ar becyn graffeg i fireinio'r 'arddull cwmni'.
- Yn ddelfrydol, bydd y dogfennau gorffenedig wedi'u cadw ar ffurf ffeiliau .pdf i'w hargraffu, neu byddant yn cael eu cyflwyno yn electronig.

Gofynion Tystiolaeth OCR

Bydd tystiolaeth ar gyfer Amcan Asesu 4 yn gofyn am fersiynau gorffenedig o'r dogfennau gan mwyaf. Er bod disgwyl i'r ymgeiswyr ddylunio eu dogfennau, nid oes gofyn iddynt gynhyrchu tystiolaeth o'u cynlluniau . Rhaid iddynt weithio oddi ar ddogfennau gwag a pheidio â defnyddio templedi na dewiniaid a geir mewn pecynnau meddalwedd. Mae angen tystiolaeth ychwanegol i ddangos y defnydd o nodweddion arbennig nad ydynt yn amlwg o'r allbrintiau. Er enghraifft, nid yw'n glir o allbrint o ddogfen a yw'r eitemau mewn pennyn, ynteu ar frig y dudalen. Os bydd ymgeiswyr yn datblygu eu templedi eu hunain neu feistr dudalennau, dylid dangos tystiolaeth. Gall y ffeiliau electronig, saethiadau sgrin ac/neu ddatganiadau tyst manwl, wedi'u harwyddo a'u dyddio gan yr aseswr, ddarparu rhagor o dystiolaeth.

Ble cafwyd elfennau o ffynonellau allanol, megis camerâu digidol, sganwyr, y We Fyd Eang ac ati, dylai bod tystiolaeth i ddangos hyn. Nid oes rhaid cynhyrchu sylwebaeth yn manylu ar bob cam a gymerwyd i gynhyrchu'r dogfennau. Rhoddir y nifer lleiaf o ddogfennau yn y grid graddio, ond efallai y bydd angen i'r ymgeiswyr gynhyrchu mwy na'r lleiafswm er mwyn dangos ystod eangach o nodweddion.

Nid yw dogfennau nad ydynt yn addas i'r diben yn dderbyniol. Nid oes pwrpas i'r ymgeiswyr greu llawer o ddogfennau sy'n defnyddio'r un nodweddion dro ar ôl tro. Dylid creu dogfennau gan ddefnyddio prosesydd geiriau neu feddalwedd cyhoeddi bwrdd gwaith yn unig. Ar y lleiaf, disgwylir y bydd dogfennau yn addas i'r gynulleidfa a'r pwrpas dan sylw, er bydd rhai gwallau. Dylid cynnwys saethiad sgrin yn dangos gwirydd sillafu a gramadeg yn cael ei ddefnyddio. Ar gyfer Anrhydedd, mae gofyn i'r ymgeiswyr lunio a chreu llythyr sydd wedi'i bostgyfuno. Gallai hyn olygu mewnosod meysydd cyfun o gronfa ddata neu daenlen gysylltiedig neu feysydd cyfun o ffeil ddata a gynhyrchwyd o fewn y meddalwedd prosesu geiriau. Mae'r gofyniad ar wahân i fewnosod meysydd yn o leiaf un ddogfen yn cyfeirio at gynnwys gwybodaeth am y ddogfen a maes dyddiad, ac ni chyflawnir hyn drwy fewnosod y meysydd cyfun o'r ffeil ddata.

Sgiliau Hanfodol Cymru - Lefel 2:

AO4 – Rhaid i dystiolaeth o'r dasg hon fod ar lefel **Anrhydedd** i ateb gofynion SHC ar L2.

✶ **Ar gyfer SHC,** ni ddylech chi ddefnyddio unrhyw dempledi parod ac/neu ddewiniaid ble maent i'w cael o fewn y meddalwedd e.e. ar gyfer llythyrau, memos a chylchlythyrau.

Gallai deunyddiau a grëwyd i'r dasg uchod hefyd ddarparu tystiolaeth i gefnogi:

TGCH2.1.1 - Disgrifio sut y byddwch yn mynd ati i gyflawni gweithgaredd sy'n golygu defnyddio TGCh. (Llyfr Gwaith - *Disgrifiwch eich tasg yn fyr*)
TGCH2.1.2 - Defnyddio TGCh yn annibynnol i gyflawni'r dasg yn effeithiol. (Llyfr Gwaith – *saethiadau sgrin wedi'u hanodi*)
TGCH 2.2.1 - Canfod, dethol a defnyddio gwahanol ffynonellau sy'n cynnwys gwybodaeth briodol sy'n **seiliedig ar TGCh** ac **nad yw'n seiliedig ar TGCh**. (Llyfr Gwaith - *sut y bu i'r ymgeisydd ganfod, dethol a defnyddio ffynonellau, ynghyd ag eglurhad o'r rheswm yr oedd y ffynonellau a ddetholwyd yn briodol i'r dasg.)*
TGCH 2.2.2 - Chwilio am, dethol a chael gwybodaeth berthnasol sy'n seiliedig ar TGCh a gwybodaeth nad yw'n seiliedig ar TGCh. (Llyfr Gwaith – *log yr ymgeisydd o'r ffynonellau y chwiliwyd amdanynt, y detholwyd a defnyddiwyd, gan esbonio pam roedd y ffynonellau a ddewiswyd yn briodol i'r dasg*)
TGCH 2.3.1 – Mewnbynnu, datblygu, fformatio a chasglu ynghyd gwybodaeth sy'n seiliedig ar TGCh i ateb eich pwrpas ar ffurf: a) **testun,** b) **tablau,** c) **delweddau,** ch) rhifau, d) cofnodion (Llyfr Gwaith – s*aethiadau sgrin wedi'u hanodi o ddatblygiadau a dewisiadau dylunio, drafft 1af ac 2il a fersiynau terfynol wedi'u hargraffu*)
TGCH 2.3.2 - Cyflwyno gwybodaeth wedi'i chyfuno, gan ddefnyddio fformatau a chynlluniau cyson sy'n briodol i'ch diben a'ch cynulleidfa, gan ddefnyddio TGCh, ac adolygu eich gwaith. (Llyfr Gwaith – *dogfennau terfynol wedi'u hanodi. Bydd angen tystiolaeth ychwanegol o adolygu'r dogfennau er mwyn cyflawni meini prawf Sgiliau Hanfodol Cymru*).

TASG 4 (AO5): Modelu Costau

Canllaw i Athrawon ar gyfer Tasg 4:

- Byddai'n syniad da rŵan atgoffa'r myfyrwyr o strwythur taenlen a sicrhau eu bod nhw'n deall y canlynol:
    - Creu a golygu fformiwla
    - Cyfeirnod cell – perthynol ac absoliwt
    - Defnyddio ffwythiannau
    - Fformatio taflen waith
    - Siartiau
    - Cynllun tudalen e.e. Ffitio i 1 dudalen, Penynnau a Throedynnau, Penawdau Rhes Colofn, llinellau grid
    - Modelu
        - Newid data
        - Newid newidynnau
        - Ymchwiliadau Beth os
- Er bod rhai sefyllfaoedd wedi'u gosod i'r myfyrwyr eu cwblhau, efallai y byddwch chi'n dymuno gwneud gweithgaredd grŵp i adnabod sefyllfaoedd posibl a gwybodaeth y gallai bod ei hangen ar y tîm rheoli o'r daenlen.
- Ceir enghraifft o daenlen yn y Ffeiliau i Athrawon ond yn ddelfrydol, ni ddylid eu copïo/eu defnyddio'n uniongyrchol gan y disgyblion. Dylid annog y disgyblion i gynllunio'u gwaith eu hunain – gallai sesiwn trafod syniadau fod o fudd i'r disgyblion yma.

Gofynion Tystiolaeth OCR

Mae Amcan Asesu 5 yn gofyn i'r ymgeiswyr gynllunio a chreu taenlen syml. Gallai hon, er enghraifft, gyfrifo'r elw a wneir yn dibynnu ar nifer y tocynnau a werthir. Ar gyfer Anrhydedd, gallai ymgeiswyr ychwanegu incwm ychwanegol ac/neu eitemau gwariant. Rhaid i'r ymgeiswyr gynllunio'u taflen eu hunain – nid yw'n dderbyniol iddynt gael cynllun iddynt ei gopïo, na thempled ble dim ond ychwanegu fformiwlâu sydd angen.

Er bod disgwyl i'r ymgeiswyr gynllunio eu taenlen eu hunain, nid oes gofyn iddynt gynhyrchu tystiolaeth o'u cynllun. Gallai tystiolaeth i'r Amcan Asesu hwn gynnwys y ffeil electronig ac allbrintiau wedi'u hanodi o'r daenlen. Efallai y byddai'n well dangos data sydd wedi'i newid gydag allbrintiau un ar ôl y llall, wedi'u hanodi gan yr ymgeisydd.

Sgiliau Hanfodol Cymru - Lefel 2:

AO5 – Rhaid i dystiolaeth o'r dasg hon fod ar lefel **Teilyngdod** i ateb gofynion SHC ar L2

Gallai deunyddiau a grëwyd i'r dasg uchod hefyd ddarparu tystiolaeth i gefnogi:

TGCH2.1.1 - Disgrifio sut y byddwch yn mynd ati i gyflawni gweithgaredd sy'n golygu defnyddio TGCh. (Llyfr Gwaith - *Disgrifiwch eich tasg yn fyr*)

TGCH2.1.2 - Defnyddio TGCh yn annibynnol i gyflawni'r dasg yn effeithiol. (Llyfr Gwaith – *saethiadau sgrin wedi'u hanodi*)

TGCH 2.3.1 - Mewnbynnu, datblygu, fformatio a chasglu ynghyd gwybodaeth sy'n seiliedig ar TGCh i ateb eich pwrpas ar ffurf: a) testun, b) **tablau,** c) delweddau, ch) **rhifau**, d) cofnodion (Llyfr Gwaith – *saethiadau sgrin wedi'u hanodi o ddatblygiadau a dewisiadau dylunio, drafft 1af ac 2il a fersiynau terfynol wedi'u hargraffu*)

TGCH 2.3.2 - Cyflwyno gwybodaeth wedi'i chyfuno, gan ddefnyddio fformatau a chynlluniau cyson sy'n briodol i'ch diben a'ch cynulleidfa, gan ddefnyddio TGCh, ac adolygu eich gwaith. (Llyfr Gwaith – *dogfennau terfynol wedi'u hanodi. Bydd angen tystiolaeth ychwanegol o adolygu'r dogfennau er mwyn cyflawni meini prawf Sgiliau Hanfodol Cymru*)

TASG 5 (AO3 a AO2b): Cyflwyniad Busnes

Canllaw i Athrawon ar gyfer Tasg 5:

Bydd angen i'r disgyblion ddefnyddio meddalwedd cyflwyno i greu cyflwyniad i dîm rheoli'r ŵyl.
Mae angen i'r cyflwyniad ganolbwyntio ar gyfleu'r wybodaeth hon:

- Manylion yr ŵyl – dyddiadau, lleoliad, sêr yr ŵyl, ac ati,
- Math o ddeunyddiau cyhoeddusrwydd sy'n cael eu datblygu – dangoswch rai enghreifftiau.
- Enghraifft o ddyluniad tocyn yr ŵyl.
- Incwm a gwariant a ragwelir
    - prif incwm a gwariant ar ffurf tablau
    - data priodol ar ffurf siart
    - gwerthiant tocynnau a ragwelir a modelu elw/colled/heb ennill na cholli
    - canlyniad ymchwilio i fodelu ariannol
- Unrhyw wybodaeth addas arall.

Mae angen i'r cyflwyniad chi fod yn 5 sleid neu fwy, a dangos y nodweddion hyn:

- Arddull cwmni gyson ar draws pob sleid – defnyddio Meistr Sleidiau
- Defnyddio testun priodol a graffeg briodol
- Effaith trawsnewid rhwng sleidiau ac animeiddiadau sy'n briodol i'r pwrpas a'r gynulleidfa
- Dim gwallau a safon sydd bron â bod yn broffesiynol - gwirio sillafu/prawf ddarllen
- Nodiadau siaradwr wedi'u hychwanegu ble bo hynny'n briodol – ceisiwch annog y disgyblion i feddwl am sut i gyflwyno'u gwaith i gwsmeriaid (gallai'r rhain fod yn gyd–ddisgyblion)
- Cyflwyniad wedi'i argraffu ar ffurf taflenni gyda nodiadau (papur neu fformat pdf)

Canllaw i Athrawon – Tasg E-bost (AO2b)

Gellir gosod y gweithdrefnau hyn er mwyn darparu tystiolaeth e-bost ar gyfer AO2b (*Gallai'r Tîm Rheoli fod yn athro/athrawes, yn gydweithwyr neu'n gyd-ddisgyblion).*

Derbyn e-bost	E-bost gan y tîm rheoli yn gofyn am gyflwyniad ar drefniadau'r ŵyl eleni.
Ateb	Cadarnhau i'r tîm rheoli bod y cais wedi dod i law a nodi dyddiad.
Ymlaen	Anfon ymlaen e-bost gwreiddiol at gydweithiwr yn dweud bod angen cwblhau'r cyflwyniad erbyn dyddiad arbennig.
Anfon (atodiad)	Anfon fersiwn drafft o'r cyflwyniad i gydweithiwr edrych drosto. *Nodwedd e-bost estynedig 1 – Cyn anfon yr e-bost, gallent greu Llofnod e-bost a dylid dangos tystiolaeth ohono yn eu Llyfr Gwaith*
	Nodwedd e-bost estynedig 2 – Gosod ateb awtomatig (e.e. allan o'r swyddfa/ar wyliau) – gyda thystiolaeth yn eu Llyfr Gwaith
Derbyn (agor, cadw atodiad)	Cael fersiwn wedi'i addasu gan gydweithiwr – cadw'r atodiad
Anfon (mwy nag un derbynnydd + atodiad)	Anfon y cyflwyniad gorffenedig at y tîm rheoli (mwy nag un derbynnydd) *Nodwedd e-bost estynedig 3 - cc a bcc – defnyddio yn briodol ac egluro rhesymau am y ddau* *Nodwedd e-bost estynedig 4 – Gosod blaenoriaeth (pwysigrwydd mawr ac isel)* *Nodwedd e-bost estynedig 5 – Defnyddio llyfr cyfeiriadau i gadw, adfer a defnyddio cyfeiriadau e-bost a manylion cysylltiadau personol* Tystiolaeth o'r uchod i gyd i'w gweld yn eu Llyfrau Gwaith

TEILYNGDOD: Dwy nodwedd e-bost estynedig
ANRHYDEDD: Pedair nodwedd e-bost estynedig

Gofynion Tystiolaeth OCR

Dylai'r cyflwyniad a gynhyrchir i Amcan Asesu 3 fod yn briodol i'w ddefnyddio mewn cyd-destun busnes, i gyd-fynd ag araith. Rhaid i'r ymgeiswyr wneud eu penderfyniadau eu hunain am bwyslais, cynnwys a chynllun y sleidiau ond nid oes gofyn iddynt gynhyrchu tystiolaeth o'u cynlluniau. Mae'n debyg mai allbrintiau o'r cyflwyniad fydd y dystiolaeth ar gyfer yr Amcan Asesu gan mwyaf, ond bydd hefyd rhai saethiadau sgrin i ddangos nodweddion na ellir eu gweld o'r allbrintiau e.e. gwirio sillafu. Gellir defnyddio datganiadau tyst fel tystiolaeth o briodoldeb ac effeithiolrwydd y cyflwyniad yn gyffredinol – gallai'r ymgeiswyr draethu a defnyddio'r cyflwyniad i esbonio. Ond, os gwneir hyn, y cyflwyniad yn unig y dylai'r ganolfan ei asesu, ac nid pa mor effeithiol oedd y traethu ar lafar. Fel arall, gall y ffeil electronig ddarparu tystiolaeth o drawsnewid ac animeiddiadau ac effeithiolrwydd y cyflwyniad yn gyffredinol.

Gallai tystiolaeth ar gyfer elfennau e-bost A02 gynnwys canllaw defnyddio ar gyfer gweithiwr newydd ar sut i ddefnyddio e-bost yn effeithiol mewn busnes - gallai hwn fod yn addas fel cynnwys i'r cyflwyniad sydd ei angen ar gyfer A03, neu un o'r dogfennau busnes a grëwyd yn A04 megis llyfryn neu daflen.
Fel arall, gallai'r ymgeiswyr ddefnyddio e-bost mewn cyd-destun busnes, ac anodi eu saethiadau sgrin/allbrintiau fel y bo'n briodol i ddangos eu dealltwriaeth o'r amrywiol gyfleusterau a nodweddion e-bost. Ar gyfer graddau uwch, mae rhestr o enghreifftiau o nodweddion e-bost uwch wedi'i chynnwys o dan Gwybodaeth Dealltwriaeth a Sgiliau – nid yw'n rhestr gyflawn gan fod llawer o nodweddion perthnasol ac uwch ar gael o fewn llawer o raglenni e-bost.

Rhaid i'r ymgeiswyr grynhoi peryglon derbyn ac agor atodiadau e-bost, ac ar gyfer lefel anrhydedd, rhaid iddynt awgrymu camau gweithredu y gellid eu cymryd i leihau'r peryglon hyn.

Sgiliau Hanfodol Cymru - Lefel 2:

AO2b – Rhaid i dystiolaeth o'r dasg hon fod ar lefel **Anrhydedd** i ateb gofynion SHC ar L2
AO3 - Rhaid i dystiolaeth o'r dasg hon fod ar lefel **Teilyngdod** i ateb gofynion SHC ar L2

- **Ar gyfer SHC,** rhaid i'r cyflwyniad gynnwys tystiolaeth o rif a chofnodion i ateb gofynion SHC ar L2.

- **Ar gyfer SHC,** dylai'r cyflwyniad gyfuno gwybodaeth berthnasol o Dasg 4 i ddangos y costau a'r incwm a ragwelir i'r tîm rheoli, ar sail nifer y bobl sy'n mynychu, wedi'i mewnforio fel tablau a siartiau. Rhaid i'r wybodaeth o'r daenlen gael ei mewnforio neu rannau perthnasol eu copïo a'u gludo i mewn i'r cyflwyniad, yn hytrach na'u teipio i mewn. Mae hyn oherwydd bod rhaid dangos gallu i gyfuno gwybodaeth o wahanol ffynonellau a sicrhau bod y cynllun a'r fformat yn aros yn gyson.

- **Ar gyfer SHC,** ni ddylech chi ddefnyddio unrhyw dempledi parod ar gyfer cyflwyniadau ac/neu ddewiniaid ble maent ar gael o fewn y meddalwedd.

Gall deunyddiau a grëwyd i'r dasg uchod hefyd ddarparu tystiolaeth i gefnogi:

TGCH2.1.1 - Disgrifio sut y byddwch yn mynd ati i gyflawni gweithgaredd sy'n golygu defnyddio TGCh. (Llyfr Gwaith - *Disgrifiwch eich tasg yn fyr*)

TGCH2.1.2 - Defnyddio TGCh yn annibynnol i gyflawni'r dasg yn effeithiol. (Llyfr Gwaith – *saethiadau sgrin wedi'u hanodi*)

TGCH 2.2.1 - Canfod, dethol a defnyddio gwahanol ffynonellau sy'n cynnwys gwybodaeth briodol sy'n **seiliedig ar TGCh** ac **nad yw'n seiliedig ar TGCh**. (Llyfr Gwaith - *sut y bu i'r ymgeisydd ganfod, dethol a defnyddio ffynonellau, ynghyd ag eglurhad o'r rheswm yr oedd y ffynonellau a ddetholwyd yn briodol i'r dasg*.)

TGCH 2.2.2 - Chwilio am, dethol a chael gwybodaeth berthnasol sy'n seiliedig ar TGCh a gwybodaeth nad yw'n seiliedig ar TGCh. (Llyfr Gwaith – *log yr ymgeisydd o'r ffynonellau y chwiliwyd amdanynt, y detholwyd a defnyddiwyd, gan esbonio pam roedd y ffynonellau a ddewiswyd yn briodol i'r dasg).*

TGCH2.2.3 – Mewnbynnu, cadw, cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth sy'n seiliedig ar TGCh i weddu i'ch diben. (Llyfr Gwaith – *Anfon, derbyn ac ymateb yn briodol i e-bost. Copïo e-bost i eraill fel y bo'n briodol. Cadw e-bost, atodiadau e-bost a chyfeiriadau e-bost yn effeithlon).*

TGCH 2.3.1 - Mewnbynnu, datblygu, fformatio a chasglu ynghyd gwybodaeth sy'n seiliedig ar TGCh i ateb eich pwrpas ar ffurf: a) **testun**, b**) tablau,** c) **delweddau,** ch) **rhifau**, d) cofnodion (Llyfr Gwaith – *saethiadau sgrin wedi'u hanodi o ddatblygiadau a dewisiadau dylunio, drafft 1af ac 2il a fersiynau terfynol wedi'u hargraffu).*

TGCH 2.3.2 - Cyflwyno gwybodaeth wedi'i chyfuno, gan ddefnyddio fformatau a chynlluniau cyson sy'n briodol i'ch diben a'ch cynulleidfa, gan ddefnyddio TGCh, ac adolygu eich gwaith. (Llyfr Gwaith – *dogfennau terfynol wedi'u hanodi. Bydd angen tystiolaeth ychwanegol o adolygu'r dogfennau er mwyn cyflawni meini prawf Sgiliau Hanfodol Cymru*).

TASG 6 (AO1): Arferion Gweithio Ddiogel

Canllaw i Athrawon ar gyfer Tasg 6
Mae'n bwysig eich bod chi'n cadw at arferion gweithio diogel wrth ddefnyddio TGCh mewn amgylchedd busnes. Mae gofyn i chi gwblhau Llyfr Gwaith AO1 sy'n adnabod yr arferion gweithio diogel a pham eu bod nhw'n angenrheidiol. Gofalwch eich bod chi'n rhoi esboniadau manwl pan ofynnir i chi.

Bydd yr esboniadau yn cynnwys:

- camau i amddiffyn iechyd
- camau i amddiffyn diogelwch ffisegol
- camau i amddiffyn ffeiliau rhag cael eu colli
- o leiaf un cam i amddiffyn mynediad anawdurdodedig at ffeiliau
- camau i amddiffyn ffeiliau rhag cael eu haddasu
- arweiniad ar ddewis cyfrinair cryf.

I Basio – rhaid i chi gynnwys esboniadau, gydag enghreifftiau, ar o leiaf un cam ar gyfer pob un o'r eitemau sydd yn y rhestr bwled.

I gael Teilyngdod - dylid cynnwys amrywiaeth eangach o arferion gweithio diogel ar gyfer y camau a restrir, ynghyd ag esboniadau manylach. Ar ben hynny, dylech gynnwys camau i amddiffyn ffeiliau rhag cael eu haddasu heb awdurdod.

I gael Anrhydedd – dylid hefyd cynnwys arweiniad addas ar ddewis cyfrinair cryf.

Bydd y lefel a gewch chi ar gyfer Amcan Asesu 1 yn dibynnu ar eglurder eich esboniadau, ystod y camau rydych chi'n eu cynnwys, a phriodoldeb yr enghreifftiau a rowch chi.

Gofynion Tystiolaeth OCR
Gellid cynhyrchu tystiolaeth ar gyfer Amcan Asesu 1 mewn amrywiaeth o ffurfiau. Gallai ymgeiswyr roi esboniadau llafar, i ymateb i gwestiynau gan diwtor – gellir rhoi tystiolaeth drwy ddatganiad tyst neu recordiad sain. Fel arall, gallai tystiolaeth ysgrifenedig fod ar ffurf adroddiad ar brosesydd geiriau, neu i'w chael yng nghynnwys y cyflwyniad ac/neu ddogfennau a gynhyrchwyd ar gyfer Amcanion Asesu 3 a 4.

Gallai'r enghreifftiau a ddefnyddir fod yn ddelweddau wedi'u hanodi yn dangos arferion gweithio diogel neu beryglus, neu saethiadau sgrin wedi'u hanodi o enghreifftiau pryd defnyddiwyd y camau yn eu gwaith eu hunain.

Bydd ymgeiswyr sy'n gweithio ar y lefelau uwch yn rhoi mwy o fanylder yn eu hesboniadau. Er enghraifft, i basio, gallai ymgeisydd adnabod yr angen i'r sgrin fod ar yr uchder iawn. Ar lefel teilyngdod, byddai ymgeiswyr yn rhoi mwy o fanylder e.e. yr uchder arbennig. Ac ar lefel anrhydedd, dylent fod yn benodol am uchder, pellter ac ongl y sgrin. Yn yr un modd, i basiom, gallai ymgeisydd ddisgrifio'r angen i wneud copi wrth gefn o ffeiliau ond byddai ymgeisydd anrhydedd yn ymestyn ar hyn gan sôn am ba mor aml y byddai angen gwneud copi wrth gefn, y cyfrwng i'w ddefnyddio a ble y dylid ei storio.

Mae gofyn i ymgeiswyr ar lefel pasio ddisgrifio un cam ym mhob categori, ond mae gofyn i ymgeiswyr ar lefelau uwch ddisgrifio ystod eangach o gamau. Bydd ymgeiswyr anrhydedd yn ymdrin â'r rhan fwyaf o'r rheiny a restrir o dan Gwybodaeth Dealltwriaeth a Sgiliau (GDS), os nad i gyd.

Sgiliau Hanfodol Cymru – Lefel 2:

AO1 – Rhaid i dystiolaeth o'r dasg hon fod ar lefel **Pasio** er mwyn ateb gofynion SHC ar L2.

Gallai deunyddiau a grëwyd i'r dasg uchod hefyd ddarparu tystiolaeth i gefnogi:
TGCH2.1.1 - Disgrifio sut y byddwch yn mynd ati i gyflawni gweithgaredd sy'n golygu defnyddio TGCh. (Llyfr Gwaith – *Disgrifiwch eich tasg yn fyr*)
TGCH2.1.2 - Defnyddio TGCh yn annibynnol i gyflawni'r dasg yn effeithiol. (Llyfr Gwaith – *saethiadau sgrin wedi'u hanodi*)
TGCH2.1.3 - Dilyn arferion saff, iach a diogel bob amser.